Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

# Sut i wneud cais am dreth anabl am ddim

## Pwy all wneud cais am dreth cerbyd am ddim

Y ceidwad cofrestredig, a all fod:

- yr unigolyn sydd â'r salwch neu'r anabledd
- yn rhywun sy'n defnyddio'r cerbyd at ddibenion yr unigolyn sâl neu anabl yn unig

Gallwch wneud cais am eithriad rhag talu treth cerbyd os ydych yn derbyn yr elfen symudedd cyfradd uwch neu fwy o fudd-dal cymhwyso a restrir isod.

## Sut i wneud cais am dreth am ddim am y tro cyntaf

Mae gwneud cais am y dreth gyntaf am ddim yn wahanol i'w hadnewyddu bob blwyddyn.

**Ar gyfer cerbydau newydd**, dylech gymryd y dystysgrif hawl ar gyfer un o'r canlynol i'r deilwriaeth er mwyn hawlio'r dreth am ddim:

- Lwfans Byw i'r Anabl (DLA)
- Taliad Annibyniaeth Personol (PIP)
- Taliad Anabledd Plentyn (CDP)
- Taliad Anabledd Oedolyn (ADP)
- Lwfans Byw i'r Anabl i Oedolion yn yr Alban (SADLA)
- Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog (AFIP)
- Atodiad Symudedd Pensiwn Rhyfel (WPMS)

Ar gyfer cerbydau a gofrestrwyd gyda chyfeiriad Gogledd Iwerddon, mae hefyd angen tystysgrif yswiriant sy'n ddilys ar y diwrnod y mae'r dreth yn dechrau.

**Ar gyfer cerbydau ail law**, pan rydych yn gwneud cais am dreth am ddim am y tro cyntaf, rhaid ichi hefyd newid dosbarth treth y cerbyd mewn cangen o Swyddfa'r Post® sy'n delio â threth cerbyd. Mae angen ichi fynd â'r dogfennau canlynol gyda chi:

- tystysgrif gofrestru cerbyd V5CW (llyfr log) neu'r slip ceidwad newydd (slip gwyrdd) a ffurflen 'Cais am Dystysgrif Cofrestru Cerbyd' (V62W) wedi ei llenwi
- tystysgrif hawl DLA, PIP, CDP, ADP, SADLA, AFIP neu WPMS (ysgrifennwch rif cofrestru'r cerbyd yn y gornel uchaf ar y dde)
- prawf o MOT dilys (mae copïau electronig yn dderbyniol) neu dystysgrif Prawf Cerbyd Nwyddau (GVT) (rhaid i'r dystysgrif MOT neu GVT fod yn ddilys ar y dyddiad y mae'r dreth yn dechrau) – os cafodd eich cerbyd prawf MOT yng Ngogledd Iwerddon, rhaid cyflwyno tystysgrif prawf ddilys

Ar gyfer cerbydau a gofrestrwyd gyda chyfeiriad yng Ngogledd Iwerddon, bydd angen tystysgrif yswiriant neu sicrwydd yswiriant (mae copïau wedi'u lawrlwytho neu wedi'u ffacsio'n dderbyniol, ond nid yw llungopïau), sy'n ddilys ar y dyddiad y mae'r dreth cerbyd yn dechrau.

I ddod o hyd i'ch cangen Swyddfa'r Post agosaf sy'n delio â threth cerbyd ewch i **www.postoffice.co.uk/branch-finder** neu ffoniwch 0345 722 3344.

CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE

Parhau dros y dudalen ☞

## Sut i adnewyddu treth am ddim

Unwaith y dangosir dosbarth treth y cerbyd fel anabl, gellir defnyddio'r V11W ffurflen atgoffa treth cerbyd neu'r V5CW yn y ffyrdd canlynol:

- ar-lein yn **www.gov.uk/treth-car** (ddim ar gael i gwsmeriaid AFIP)
- dros y ffôn ar 0300 123 4321 (ddim ar gael i gwsmeriaid AFIP)
- mewn cangen Swyddfa'r Post sy'n delio â threth cerbyd

Am wybodaeth bellach ewch i **www.gov.uk/treth-car**

## Defnyddio'r cerbyd yn y dosbarth treth anabl

Rhaid i'r cerbyd gael ei ddefnyddio gan yr unigolyn anabl neu rywun arall sy'n defnyddio'r cerbyd i'w gynorthwyo yn unig, er enghraifft, i gasglu presgripsiynau neu siopa i'r unigolyn anabl.

## Os nad yw'r eithriad yn gymwys bellach

Os nad ydych yn defnyddio'r cerbyd fel y disgrifir uchod neu os nad oes gan yr unigolyn anabl yr hawl bellach i gael treth anabl am ddim, mae'n rhaid ichi drethu'r cerbyd yn y dosbarth treth priodol. Gall hwn gael ei wneud mewn cangen Swyddfa'r Post sy'n delio â threth cerbyd.

Bydd arnoch angen:

- y V5CW neu'r slip ceidwad newydd (slip gwyrdd) a V62W
- tystysgrif MOT neu GVT (os yn berthnasol)
- ffi briodol (os yn berthnasol)

Ar gyfer cerbydau a gofrestrwyd gyda chyfeiriad Gogledd Iwerddon, bydd hefyd angen tystysgrif yswiriant sy'n ddilys ar y diwrnod y daw'r dreth i rym.

## Pan fydd angen cael tystysgrif hawl newydd ar gyfer DLA, PIP CDP, ADP, SADLA ac AFIP

Bydd angen tystysgrif amnewid pan fydd:

- y ceidwad cofrestredig neu'i gerbyd wedi newid
- y dystysgrif wedi'i cholli, ei dwyn neu'i difrodi

I gael tystysgrif amnewid, cysylltwch ag un o'r canlynol:

**DLA** (cwsmeriaid Prydain Fawr yn unig)

Dros y ffôn ar 0800 121 4600
Drwy destun SMS ar 0800 121 4523 (anawsterau clyw neu lefaru)

**PIP** (cwsmeriaid Prydain Fawr yn unig) ac **AFIP** (cwsmeriaid Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon)
Dros y ffôn ar 0800 121 4433
Drwy destun SMS ar 0800 121 4493 (anawsterau clyw neu lefaru)

**CDP, ADP a SADLA**
Dros y ffôn ar 0800 182 2222
Drwy destun SMS ar 0300 244 4000
(anawsterau clyw neu lefaru, ddim ar gael i gwsmeriaid SADLA)

**DLA** (cwsmeriaid Gogledd Iwerddon yn unig)

Dros y ffôn ar 0800 587 0912
Drwy destun SMS ar 028 9031 1092 (anawsterau clyw neu lefaru)

**PIP** (cwsmeriaid Gogledd Iwerddon yn unig)

Dros y ffôn ar 0800 507 0932
Drwy destun SMS ar 0800 587 0937 (anawsterau clyw neu lefaru)

## Pwysig

Os na fyddwch yn gwneud cais am dystysgrif hawl DLA, PIP, CDP, ADP, SADLA, AFIP neu WPMS ac yn derbyn un newydd pan fyddwch yn newid eich cerbyd, ni fyddwch yn gallu gwneud cais am dreth cerbyd am ddim.